O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1064 (Cy. 113)

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Safonau Sootechnegol (Diwygio) (Cymru) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Safonau Sootechnegol 1992, O.S. 1992/2370 ("Rheoliadau 1992").

Mae'r diwygiadau'n rhoi effaith i'r diwygiadau i Gyfarwyddeb y Cyngor 87/328/EEC ar dderbyn, at ddibenion bridio, anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol (OJ 1 167, 26.6.1987, t. 54) a wnaed gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/24/EC o ran defnyddio ofa ac embryonau a chanolfannau storio ar gyfer semen o anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol (OJ L78, 24.3.2005, t.43).

Mae rheoliad newydd 6 o Reoliadau 1992, a ychwanegir gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn, yn gosod rhwymedigaethau ar gyrff cydnabyddedig o ran casglu, prosesu a storio semen buchol. (Caiff y term "recognised organisation" ei ddiffinio yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 1992.)

Diwygir Rhan V o Atodlen 3 i Rheoliadau 1992 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cydnabyddedig dderbyn, at ddibenion bridio, ofa ac embryonau buchol.

Ni chafodd asesiad effaith rheoliadol ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1064 (Cy. 113)

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Safonau Sootechnegol (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed *9 Ebrill 2008*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

10 Ebrill 2008

Yn dod i rym *2 Mai 2008*

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran y polisi amaethyddol cyffredin.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol o dan bwerau a roddir gan yr adran honno.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau Sootechnegol (Diwygio) (Cymru) 2008, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 2 Mai 2008.

Diwygiadau

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Safonau Sootechegol 1992(**3**) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 5, ychwaneger —

(**1**) S.I. 2005/2766. Mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 iddi.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1992/2370.

"Collection, processing and storage of semen

6.—(1) A recognised organisation shall ensure that semen referred to in Article 2 of the 1987 Directive which is intended for intra-Community trade —

(a) is collected and processed at an EC collection centre; and

(b) stored at an EC storage centre.

(2) A recognised organisation which fails to comply with paragraph (1) may have its recognition withdrawn by the Welsh Ministers by notice in writing at any time.

(3) In this regulation —

"the 1987 Directive" means Council Directive 87/328/EEC(**1**) on the acceptance for breeding purposes of pure-bred breeding animals of the bovine species; and

"EC collection centre" and "EC storage centre" have the meanings given in the Bovine Semen (Wales) Regulations 2008 (**2**).".

(3) Yn lle Rhan V o Atodlen 3, rhodder—

"PART V

Regulation 5

CRITERIA FOR ACCEPTANCE FOR BREEDING PURPOSES

Recognised organisations shall accept for breeding purposes bovines, and use ova and embryos, which satisfy the criteria specified in Council Directive 87/328/EEC on the acceptance for breeding purposes of pure bred breeding animals of the bovine species.".

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

9 Ebrill 2008

(**1**) OJ Rhif L167, 26.6.87, t.54, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/24/EEC (OJ Rhif L 78, 24.3.2005, t. 43).
(**2**) O.S. 2008/1040 (W.110).